**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/3910/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

llywydd@senedd.cymru

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Rwyf wedi cyflwyno heddiw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, a hynny wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithred. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Rwy'n bwriadu gosod y rhain unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Daw'r offeryn hwn i rym o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y diwygiadau y mae'r Rheoliadau yn eu gwneud wedi deillio o oedi o ran trafodaethau â gweinyddiaethau'r DU ac addasiadau hwyr i Reoliadau cyfatebol Lloegr. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau yn cynnwys pŵer newydd ar gyfer llunio rheoliadau y bydd angen ei arfer ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd er mwyn datgymhwyso rhai amodau ar allforion o'r UE i mewn i Gymru. Yn sgil yr oedi yma mae'n rhaid i'r Rheoliadau a fyddai fel rheol wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol symud ymlaen o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' ar sail y ffaith nad oes digon o amser i fodloni'r amodau sifftio a nodir yn y Ddeddf Ymadael nac ychwaith ddigon o amser i osod y Rheoliadau yn wirfoddol yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â’r weithdrefn a amlinellir ym mharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae’n rhaid i’r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 7 Chwefror er mwyn iddo barhau i gael effaith. O dan yr amgylchiadau hyn rwy’n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen lle y gall y pwyllgor neu’r pwyllgorau perthnasol adrodd. Efallai y byddai o ddefnydd i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y cyfarfod llawn ar gyfer yr eitem yma o is-ddeddfwriaeth ar 26 Ionawr 2021.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth a Pholisi.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs